
Cyngor Iechyd Cymuned Hywel Dda

Mynediad i'ch Meddyg Teulu – Sir Benfro

Gweld Meddyg Teulu yn Hywel Dda, beth rydych
wedi ei ddweud wrthym....

Mawrth 2022



Fformatau Hygyrch

Mae'r adroddiad yma ar gael yn Saesneg hefyd.

Os hoffech y cyhoeddiad yma mewn fformat ac/neu iaith amgen, cysylltwch gyda ni os gwelwch yn dda.

Gallwch ei lawrlwytho o'n gwefan neu ofyn am gopi drwy gysylltu gyda'n swyddfa.

Cynnwys

Am y CICau	3
Cefndir a chyflwyniad	6
Beth rydym wedi ei wneud	8
Beth rydym wedi ei glywed	9
Dysgu o'r hyn rydym wedi ei glywed	17
Argymhellion	19
Diolch	21
Adborth	22
Manylion cyswllt	23

Am y Cyngorau Iechyd Cymuned (CICau)

Mae CICau yn gyrff annibynnol sydd yn adlewyrchu barn ac yn cynrychioli buddiannau pobl sydd yn byw yng Nghymru ar eu Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG). Mae CICau yn annog ac yn cefnogi pobl i gael llais yn nyluniad, cynllunio a darpariaeth gwasanaethau GIG.

Ystyrir CICau yn aml fel cyrff gwarchod annibynnol y GIG yng Nghymru. Mae 7 CIC yng Nghymru. Mae pob un yn cynrychioli llais y "claf a'r cyhoedd" mewn gwahanol rannau o Gymru.

Mae pob CIC yn:



Cynnal ymweliadau rheolaidd i wasanaethau iechyd i glywed gan y bobl sydd yn defnyddio'r gwasanaeth (a'r bobl sydd yn darparu gofal) i ddylanwadu ar y newidiadau sydd yn gallu gwneud gwahaniaeth mawr



Ymestyn allan i bobl mewn cymunedau lleol i roi gwybodaeth a chasglu barn a phrofiadau am wasanaethau GIG. Mae CICau'n defnyddio'r wybodaeth yma i weld sut mae gwasanaethau yn perfformio a sicrhau bod y GIG yn gweithredu i wella pethau lle mae angen



Ymwneud gyda rheolwyr gwasanaeth iechyd pan maen nhw'n meddwl am wneud newidiadau i'r ffordd y mae gwasanaethau yn cael eu darparu fel bod gan bobl a chymunedau lais o'r cychwyn



Darparu gwasanaeth eiriolaeth cwynion sydd am ddim, yn annibynnol ac yn gyfrinachol i helpu pobl i godi eu pryderon am ofal a thriniaeth GIG.

Mae CICau yn clywed oddi wrth y cyhoedd mewn gwahanol ffyrdd. Cyn y pandemig coronafeirws roedd CICau yn ymweld yn rheolaidd gyda gwahanol wasanaethau GIG fel Meddygon Teulu ac ysbytai i glywed oddi wrth bobl pan roedden nhw yn derbyn gofal a thriniaeth. Roedd CICau hefyd yn clywed oddi wrth bobl mewn digwyddiadau cymunedol lleol a thrwy gynrychiolwyr cymuned fel cyngorwyr a gwleidyddion.


Roedd CICau hefyd mewn cysylltiad yn aml gyda grwpiau amrywiol a chyrff yn y gymuned fel Cyngor ar Bopeth, ysgolion, cyrff gwirfoddol o wahanol elusennau ayb. Roedd CICau hefyd yn clywed oddi wrth bobl oedd yn mynychu ein cyfarfodydd ac yn cysylltu gyda'n swyddfeydd a'n staff.

Ers y pandemig coronafeirws bu'n rhaid newid y dulliau yma o wrando ar bobl, felly mae CICau wedi canolbwyntio ar glywed yn uniongyrchol gan bobl mewn ffyrdd gwahanol.

Er nad ydym wedi gallu cyfarfod pobl wyneb yn wyneb oherwydd y cyfyngiadau oedd yn bodoli, rydym wedi dysgu ffyrdd newydd o wneud pethau yn wahanol, mae rhai pobl wedi defnyddio technoleg am y tro cyntaf. Mae hyn wedi cynnwys arolygon ar-lein, defnyddio gwahanol apiau ar eu ffonau symudol, fideo-gynadleddau a chyfryngau cymdeithasol. Rydym hefyd wedi defnyddio ffyrdd gwahanol o glywed oddi wrth bobl am eu barn a'u profiadau o ofal GIG.

Gwyddom nad ydy pawb wedi gallu defnyddio technoleg na'r dulliau newydd yma o gyfathrebu. Gall fod yn fwy anodd i rai pobl gael eu clywed yn ystod y cyfnod pandemig heriol yma. I geisio cyrraedd cymaint o bobl ag y gallwn rydym weid parhau i ddefnyddio'r dulliau mwy traddodiadol fel arolygon papur.

Mae CIC Hywel Dda yn cynrychioli buddiannau pobl sydd yn byw yn nhair Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro.



Cyflwyniad a Chefndir

Yn dilyn y nifer o bryderon a dderbyniodd CIC Hywel Dda dros y flwyddyn ddiwethaf ynghylch mynediad i wasanaethau gofal sylfaenol, cytunodd ein Pwyllgor Gweithredol i gynnal prosiect yn holi'r cyhoedd am eu profiadau o gysylltu gyda'u meddygfa.

Parhaodd y prosiect rhwng Medi 2021 a Mawrth 2022.

Mae'r adroddiad yma yn nodi ein canfyddiadau ar gyfer meddygfeydd yn Sir Benfro



Cyflwyniad

Mae gwasanaethau Meddygon Teulu yn chwarae rhan hanfodol oddi mewn i'r system iechyd a gofal ehangach yng Nghymru. Fel rheol, Meddygon Teulu ydy'r pwynt cyswllt gofal i dros 90% o bobl sydd yn defnyddio gwasanaethau GIG yng Nghymru.

Mae Meddygon Teulu yn contractwyr annibynnol i'r GIG (hynny ydy bod Meddygon Teulu yn hunangyflogedig ac nid yn gyflogai i'r GIG).

Mae'r pandemig COVID-19 wedi newid y ffordd rydym yn cael mynediad i'n meddygfeydd yn llwyr. Yn hytrach na ffonio am apwyntiad neu gerdded i feddygfa, mae cael gwasanaeth gan Feddyg Teulu wedi symud yn gyflym i apwyntiadau 'ar-lein', ymgynghoriadau dros y ffôn neu fideo. Mae ein hadroddiad yn nodi'n glir bod llawer o bobl yn cael trafferth i gael gofal gan eu meddygfa gan eu gadael yn teimlo'n rhwystredig.

Roeddem eisiau darganfod gan bobl beth sydd yn gweithio'n dda a beth sydd angen ei wella. Dywedodd cleifion wrthym am yr effaith y mae'r newidiadau yma wedi ei gael arnyn nhw a beth mae wedi ei olygu iddyn nhw yn ystod llynedd. Pa mor hawdd oedd cael gafael ar wasanaethau Meddyg Teulu?

Roeddem hefyd eisiau gwybod sut roedd apwyntiadau o bell (ffôn a fideo) yn gweithio i bobl.

Mae 15 o feddygfeydd yn Sir Benfro yn darparu gofal sylfaenol ac ataliol cyffredinol i tua 125,000 o bobl o fewn ardal o 613.9 milltir sgwâr.

Cawsom ymateb ardderchog gan bobl yn y 3 Sir, a derbyniwyd dros 200 o ymatebion gan gleifion sydd yn byw yn Sir Benfro.



- bu'r ymateb i'n harolwg yn ardderchog. Fe wnaethom hefyd edrych ar yr wybodaeth oedd yn dod i'r CIC drwy ffyrdd eraill: drwy ymholiadau cyffredinol i'r swyddfa; ar y ffôn; e-bost a phost
- drwy bryderon oedd yn cael eu rhannu gyda'n gwasanaeth eiriolaeth cwynion
- trafodaethau cyfryngau cymdeithasol ar Facebook a Thrydar
- sylwadau oedd yn cael eu casglu o arolwg CIC Cymru gyfan yn gofyn i bobl ddweud wrthym am eu gofal iechyd



Beth rydym wedi ei wneud

Yn draddodiadol roeddem yn ymweld â meddygfeydd i siarad gydag a gwrando ar gleifion ynghylch mynediad a'r gofal roedden nhw yn ei dderbyn.

Wrth ymweld, fe wnaethom ddarganfod bod cleifion yn hapus i siarad gyda ni am eu profiadau.

Eleni oherwydd COVID bu'n rhaid inni weithio yn wahanol, postiwyd 20 arolwg, gydag amlenni rhagdalau i bob meddygfa yn Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro.

Roedd yr arolwg ar gael hefyd ar ein gwefan, cyfryngau cymdeithasol ac yn ein newyddleni.

Doedd dim cwestiynau manwl yn ein harolwg, yn hytrach fe wnaethom ofyn i'r cyhoedd:

- Pa mor hawdd oedd cael mynediad i'ch meddygfa?
- Pa mor hawdd oedd gwneud apwyntiad?
- Dywedwch wrthym beth oedd yn gweithio'n dda
- Os nad oedd eich profiad cystal, dywedwch wrthym ni beth oedd y problemau
- Gan feddwl am eich apwyntiad – beth y gellid ei newid i wneud pethau'n well?
- Oes rhywbeth arall yr hoffech ei ddweud wrthym ni am eich gofal iechyd yn ystod y pandemig?



Beth rydym wedi ei glywed

Dyma rai o'r straeon a ddywedodd aelodau'r cyhoedd wrthym am gael gweld eu Meddyg Teulu a chael apwyntiad yn ystod y pandemig.

Fe wnaethom glywed ei bod wedi bod yn anodd i lawer gysylltu gyda'u meddygfeydd dros y ffôn, yn enwedig y peth cyntaf yn y bore.

Fe wnaethom glywed am bobl yn aros am gyfnodau hir yn system giwio'r feddygfa neu yn rhoi sawl cynnig ar geisio cysylltu. Gan edrych ar y data roedd llawer yn dibynnu ar gyda pha feddygfa roedden nhw wedi cofrestru, gan fod rhai cleifion yn llwyddo i gysylltu gyda'u meddygfa yn llawer haws nag eraill.

Aros yn hir ar y ffôn, hanner awr o leiaf, ond bob amser yn llwyddo i gael galwad yn ôl gan y meddyg yr un bore neu brynhawn

Rwyf wedi aros mewn ciwiau hir iawn. Ar un achlysur am 1 awr 5 munud ac wedyn darganfod na allwn gael apwyntiad. Mae'n beth da nad ydw i'n gweithio. Fyddai gan bobl sydd yn gweithio ddim amser i aros

Dim problem o gwbl. Derbyng pob prawf gwaed arferol bob deufis. Gallu cysylltu gyda'r meddyg drwy alwad ffôn

Cysylltu yn gallu bod ychydig yn rhwystredig ar adegau. Ond ar y cyfan dim problem

Hawdd cysylltu ar y ffôn ond doedd yr alwad yn ôl am apwyntiad byth wedi digwydd

Dim yn system dda, ffonio am 8yb am apwyntiad (methu gwneud apwyntiadau o flaen llaw neu os ydych yn troi i fyny ar y diwrnod). Oherwydd bod nifer fawr yn gwneud yr un fath rydw i wedi bod mewn ciw o 20+ o alwadau ac erbyn fy nhro i tra'n aros dros 40 munud ar y ffôn does dim apwyntiadau ar ôl ar gyfer y diwrnod hwnnw

Dim yn hawdd yn ystod na hyd yn oed cyn y pandemig. Rhaid ffonio'r feddygfa am 8am i gael unrhyw obaith o apwyntiad. Dydych chi ddim yn gallu trefnu apwyntiad gyda'r meddyg o flaen llaw h.y. dim ond ar y diwrnod rydych chi'n ffonio

Disgrifiodd rhai pobl y 'broses ddiraffferth' wrth geisio cysylltu gyda'r feddygfa; dim problemau ffonio ac roedden nhw'n cael cynnig apwyntiad wyneb yn wyneb neu ymgynghoriad ffôn

Roedd eraill yn cael trafferthion a phan roedden nhw'n llwyddo i gysylltu roedd pob apwyntiad wedi mynd; roedd rhaid iddyn nhw wedyn wynebu'r un broses y diwrnod canlynol, yn aml gyda'r un canlyniad. Roedd nifer yn rhwystredig ac yn flin.

Bron yn amhosibl cysylltu. Ffonio am 8yb, 57fed yn y ciw! Dros wythnos fe gymerodd 12 awr a 43 munud i lwyddo i gysylltu â chlywed nad oedd yr un apwyntiad ar gael ac i ffonio eto fore Llun! Bu'n dridiau arall cyn cael galwad yn ôl gan y meddyg.

Ffonio'r feddygfa, rhoi fy manylion ac yna ffoniodd y meddyg fi i roi ymgynghoriad dros y ffôn. Bu'n rhaid i mi anfon ffotograffau o ddwylo fy mab ac yna rhagnododd y meddyg y meddyginiaethau priodol

Gall ymgynghoriad ffôn ddigwydd unrhyw adeg o'r dydd ac felly dydy hi ddim bob amser yn bosibl cynllunio ar gyfer yr alwad yn ystod amserlen gwaith. Anodd dangos/esbonio'r broblem ar y ffôn.

Drwy gydol y pandemig roedd yn bwysig bod meddygfeydd yn darparu amgylchedd diogel i'r cyhoedd a'r staff gan sicrhau eu bod yn gallu gweithio yn ddiogel yn ôl canllawiau cadw pellter cymdeithasol 2 fetr Llywodraeth Cymru i gyfyngu ar risg heintio.

Roedd Llywodraeth Cymru wedi cynghori meddygfeydd i gynnal 'ymgyngoriadau o bell' oni bai bod angen brys am apwyntiad wyneb yn wyneb. Ac felly fe wnaeth y mwyafrif o feddygfeydd atal apwyntiadau wyneb yn wyneb. Yn hytrach cynigiwyd ymgynghoriadau ffôn neu fideo i'r rhan fwyaf o gleifion (ymgyngoriadau o bell). Mae sawl meddygfa wedi parhau i weithio fel hyn, tra bod eraill wedi ailgyflwyno apwyntiadau y gellir eu trefnu o flaen llaw.

Roedd rhai pobl yn hapus gydag ymgynghoriadau ffôn ac eraill yn ei chael yn anodd addasu ac yn teimlo'n anniddig heb gael sgwrs wyneb yn wyneb ac yn amau'r diagnosis.


Sut y gall galwad ffôn roi diagnosis?
Mae angen gweld llawer o bethau ac nid eu disgrifio yn unig

Fideo-gynadledda neu apwyntiad wyneb yn wyneb.
Dydy ymgynghoriad ffôn ddim yn ddigon.


Roedd apwyntiad ffôn yn iawn i ddechrau ond dywedwyd wrthyf fod rhaid aros 5 wythnos am apwyntiad wyneb yn wyneb a dydw i ddim yn meddwl bod hynny'n dderbyniol. Oni fyddai'n bosibl cael apwyntiadau ar-lein fel eich bod o leiaf yn gweld y meddyg ar y sgrin, a'u bod nhw yn gallu eich gweld chi?

Mynegodd pobl farn amrywiol am ymgynghoriadau ffôn, yn amrywio o frwfrydedd i rwystredigaeth. Roedd y system newydd yn addas i rai, yn enwedig y rhai sydd yn gweithio, gan osgoi'r angen i ad-drefnu'r diwrnod i fynd i'r feddygfa. Roedd hyn yn broblem i rai, yn enwedig pan nad oedd syniad o amser yn cael ei roi ar gyfer yr ymgynghoriad. Dywedodd nifer fechan nad oedden nhw wedi derbyn yr alwad ddisgwyliedig gan y meddyg teulu.

Roedd canran o'r ymatebion negyddol yn ymwneud â'r broses, yn hytrach nag am yr ymgynghoriad ffôn ei hun, er enghraifft, anhawster cysylltu ar y ffôn neu fethu trefnu eu diwrnod gan eu bod yn aros am alwad gan y meddyg teulu. Roedd rhai yn teimlo y byddai fideo-ymgynghoriad wedi bod yn fwy addas iddyn nhw.



Oedi hir gan fod rhaid i bawb ffonio ar yr un amser – 8yb. Ymddangos yn ddisynnwyr gan ein bod yn gallu ffonio am bethau eraill ar unrhyw adeg. Fe fyddai'n well gennyf drefnu fy apwyntiad ar-lein neu ar y ffôn yn ystod oriau arferol.



Colli'r alwad ffôn a gorfod ffonio ac ailgofrestru eto

Roedd rhai meddygfeydd yn defnyddio'r system "fy iechyd ar-lein" lle y gellid trefnu apwyntiadau ac archebu rhagnodion rheolaidd.

Roedd un person yn meddwl bod hyn yn siomedig gan ddweud "Rwyf wedi ceisio trefnu apwyntiadau drwy'r ap iechyd ar-lein a doedd byth un ar gael". Fe fyddai'n well gan rai pobl drefnu apwyntiad ar-lein gan ei fod yn gyfleus iddyn nhw ac yn addas i'w ffordd o fyw.

Galluogi apwyntiadau o flaen llaw a threfnu ar-lein. Dydy dibynnu'n llwyr ar y ffôn ddim yn gwneud synnwyr. Mae pobl yn mynd â'u plant i'r ysgol a dydy llinellau ffôn ond yn agor am 8yb



Dyweddodd pobl wrthym eu bod ar adegau yn anfodlon gyda'r holl brofiad o geisio cysylltu gyda'r feddygfa; ac unwaith eu bod yn llwyddo roedden nhw yn flin:-

1. ei bod yn cymryd mor hir a
2. bod rhai derbynyddion yn anghwrtais

Doedd hyn ddim yn brofiad i bawb a atebodd yr arolwg.

Dyweddodd un person "Dydy derbynyddion yn dangos dim cydymdeimlad nac empathi o gwbl! Mae'r ffôn yn brysur yn gyson ac yna rydych chi'n cael eich rhoi mewn ciw hir. Pan rydych yn llwyddo i gysylltu yn y diwedd mae'r derbynyddion yn swta ac yn dweud wrthy ch nad oes apwyntiadau ar gael ac i chi ffonio eto, ac mae'r un peth yn digwydd dro ar ôl tro!"

Dyweddodd un person bod y staff yn gymwynasgar gan ddweud bod y "derbynydd yn effeithiol iawn".

Mae staff y dderbynfa yn aelodau o dîm y feddygfa ac mae'n ofynnol iddyn nhw ofyn i gleifion "pam bod angen i chi gael eich gweld?". Mae staff y dderbynfa wedi cael eu hyfforddi i ofyn rhai cwestiynau i sicrhau bod cleifion yn derbyn y gofal meddygol mwyaf priodol gan y gweithiwr iechyd proffesiynol mwyaf priodol, ar yr amser mwyaf priodol.

Doedd nifer o bobl ddim yn deall pam bod derbynyddion yn gofyn cwestiynau am eu symptomau gan weld hyn yn ymwithiol.

Mae'r derbynyddion yn gofyn llawer o gwestiynau personol i chi (er rwy'n sicr eu bod yn gwneud yr hyn sydd yn ofynnol iddyn nhw ei wneud). Gallai'r rheswm dros eich galwad fod yn breifat iawn ac yn gallu creu chwithdod a ddylech chi ddim gorfod esbonio hyn i dderbynnydd. Dydw i ddim yn meddwl mai nhw ddylai benderfynu os ydych chi'n cael siarad gyda meddyg neu beidio

Doedd y derbynyddion ddim yn groesawgar ac eisiau gwybod beth ydy'r broblem. Cysylltu gyda'r Adran Frys oedd eu hateb

Dysgu o'r hyn rydym wedi ei glywed

Fel rheol, y feddygfa ydy'r pwynt cyswllt cyntaf i bobl sydd yn defnyddio gwasanaethau GIG. Dylid cydnabod pwysigrwydd a gwerth eu gwaith hanfodol yn ystod y pandemig.

Ar yr un pryd, mae'n wir nad ydy gallu pobl i gael mynediad i'r feddygfa cystal yn aml ag y dylai fod, gyda rhai cleifion yn profi mynediad annerbyniol o wael, yn cynnwys methu gallu cysylltu gyda meddygfeydd am ddyddiau fel yr amlygwyd yn yr ymatebion i'n harolwg.

Rydym wedi dysgu bod y rhan fwyaf o bobl oedd wedi ceisio cael cyswllt gyda meddygfeydd wedi cael hynny yn heriol, yn enwedig y peth cyntaf yn y bore ac ar gyfer yr apwyntiadau mwyaf arferol.

Fe wnaethom ddysgu bod apwyntiadau o bell yn fwy cyfleus i rai ond doedden nhw ddim yn ateb anghenion pawb ac roedd rhai cleifion yn "poeni na fyddai eu problemau iechyd yn cael diagnosis cywir". I bobl gyda nam clyw/golwg roedd ymgynghoriadau ffôn yn anodd.

Roedd newidiadau i'r ffordd roedd pobl yn derbyn gwasanaethau meddygfeydd yn ystod y pandemig wedi creu rhwystredigaeth i rai oedd yn well ganddyn nhw gael apwyntiadau wyneb yn wyneb.



Roedd rhai aelodau o'r cyhoedd eisiau fideo-ymgyngoriadau, ond doedd y cyfleuster yma ddim ar gael ym mhob meddygfa.

Rydym wedi dysgu bod y cyhoedd eisiau dewis ynghylch sut maen nhw'n derbyn ymgyngoriad gyda'u meddyg teulu.

Mae CIC Hywel Dda yn deall bod llai o staff mewn rhai meddygfeydd yn ystod COVID oherwydd bod staff yn cysgodi neu ar absenoldeb salwch. Mae CIC Hywel Dda hefyd yn deall bod rhai adeiladau meddygfeydd naill yn hen ac/neu gydag ystafelloedd aros bach oedd yn ei gwneud yn anodd sicrhau amgylchedd diogel i gleifion fynychu'r feddygfa ar yr un pryd. Er hynny, dylid fod wedi hysbysu'r cyhoedd pam ei bod yn cymryd cymaint o amser i ateb ffonau.

Argymhellion

01

Fe ddylai meddygfeydd gael apwyntiadau wyneb yn wyneb y gellir eu trefnu.

02

Mae angen i feddygfeydd hyfforddi eu staff derbynfa i gynnwys esbonio i gleifion pam eu bod yn holi am symptomau. Fe ddylai derbynnyddion ddangos cydymdeimlad gyda chleifion a chael amser i siarad gyda nhw mewn dull proffesiynol.

03

Ni ddylai derbynnyddion fod yn dweud wrth gleifion nad oes apwyntiadau ar ôl ac i fynd i'r Adran Frys os nad oes bygythiad i fywyd yn ôl negeseuon ffôn y meddyg teulu.

04

Ni ddylai meddygfeydd ffafrio apwyntiadau ffôn yn hytrach nac apwyntiadau wyneb yn wyneb. Fe ddylai cleifion gael dewis apwyntiadau ffôn neu wyneb yn wyneb.

05

Fe ddylid cael mynediad cyfartal oddi mewn i ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. Ni ddylai mynediad hawdd neu beidio fod yn ddibynnol ar ba feddygfa rydych chi wedi cofrestru gyda nhw.

06

Dylid buddsoddi mewn gwefan hawdd ei defnyddio, i bobl allu archebu apwyntiadau a derbyn canlyniadau yn hawdd.

07

Fe ddylai pobl allu cael fideo-ymgyngoriadau os ydyn nhw'n dymuno hynny ac fe ddylai hyn gynnwys fideo-ymgyngoriadau y gellir eu trefnu o flaen llaw.

08

Fe ddylai fod gan feddygfeydd apwyntiadau y gellir eu trefnu o flaen llaw i'r cleifion hynny sydd wedi cael cais gan y meddyg teulu neu'r nyrs i drefnu apwyntiad dilyn i fyny, yn hytrach na cheisio trefnu apwyntiad ar y diwrnod ar y ffôn am 8yb.

Diolch

Rydym yn diolch i bawb a dreuliodd amser yn rhannu eu barn a'u profiadau gyda ni am eu gwasanaethau iechyd a gofal a rhannu eu syniadau.


Rydym yn gobeithio y bydd yr adborth gan bobl yn dylanwadu ar wasanaethau iechyd i gydnabod a gwerthfawrogi'r hyn y maen nhw yn ei wneud yn dda – ac i weithredu lle mae angen cyn gynted ag y gallan nhw i wella pethau.

Adborth

Hoffem glywed eich barn am y cyhoeddiad yma, ac unrhyw awgrymiadau am sut y gallem fod wedi ei wella, fel y gallwn ddefnyddio hyn i wella ein gwaith yn y dyfodol.



Manylion cyswilt



Cyngor Iechyd Cymuned
Hywel Dda,
Ystafell 5, Llawr 1af,
Tŷ Myrddin, Caerfyrddin SA31 1LP



01646 697610



hyweldda@waleschc.org.uk



www.hywelddacic.cymru



@CICHywelDda



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Hywel Dda
University Health Board

Eich cyf / Your ref:

Swyddfeydd Corfforaethol, Adeilad Ystwyth
Hafan Derwen, Parc Dewi Sant, Heol Ffynnon Job
Caerfyrddin, Sir Gaerfyrddin, SA31 3BB

Ein cyf/Our ref:

Jill Paterson

Gofynnwch am/Please ask for:

Emma Williams

Rhif Ffôn /Telephone:

01267 239569

Corporate Offices, Ystwyth Building

E-Bost/Email

Emma.williams47@wales.nhs.uk

Hafan Derwen, St Davids Park, Job's Well Road,
Carmarthen, Carmarthenshire, SA31 3BB

Dyddiad/Date:

30th May 2022

Helen Williams
Deputy Chief Officer
Hywel Dda Community Health Service
Suite 5, 1st Floor
Ty Myrddin
Old Station Road
Carmarthen SA31 1BT
Dear Ms Williams

Thank you for your letter dated 12 May 2022 and for providing me with the County level reports following the CHC survey on access to GP Practices. I have asked that this information is shared through our Primary Care Services Managers and Locality Leads and that this is reflected on through forthcoming Cluster meetings. Similarly, I am keen that this work is taken into the Access forum of which I am aware you are a member so we can discuss the findings with our colleagues as well as the Local Medical Committee. I have requested that this group develops an action plan that can be considered in conjunction with the recently issued guidance from Welsh Government on the Access agreement for 2022/23, as well as a baseline review of current access arrangements including the status of "doors open".

Whilst it was pleasing to see that some patients had had a good experience when accessing services at their GP Practice it was also disappointing to see that some did not. Whilst I appreciate that at the time of the survey many GP Practices were still experiencing significant pressures as a result of the COVID-19 pandemic which was impacting on their ability to provide services to patients in a way that I know they would want to, it was difficult to read some of the quotes from patients who had clearly not been able to access services in a way that we would wish.

Swyddfeydd Corfforaethol, Adeilad Ystwyth,
Hafan Derwen, Parc Dewi Sant, Heol Ffynnon Job,
Caerfyrddin, Sir Gaerfyrddin, SA31 3BB

Corporate Offices, Ystwyth Building,
Hafan Derwen, St Davids Park, Job's Well Road,
Carmarthen, Carmarthenshire, SA31 3BB

Cadeirydd /Chair
Miss Maria Battle

Prif Weithredwr/Chief Executive
Mr Steve Moore

Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yw enw gweithredol Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Hywel Dda
Hywel Dda University Health Board is the operational name of Hywel Dda University Local Health Board Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol
Hywel Dda yn amgylchedd di-fwg Hywel Dda University Health Board operates a smoke free environment

As you will be aware the pandemic also brought with it the opportunity to consult with and access services digitally which we know works differently in each Practice and for each patient. We appreciate that there is no “one size fits all” for either Practices or patients and we will continue to work with Practices across Hywel Dda to ensure that there is a range of access and consultation arrangements in place, that meet the needs of patients as well as ensuring that people are able to access the right care in the right place in a timely manner.

I look forward to the publication of your reports and to seeing the work of the Access Forum in developing an action plan that brings together all aspects of Access to GP Practices as well as to our other Primary Care contractors who have a key role in that wider service provision.

Yours
sincerely,

Jill Paterson

Director of Primary Care, Community and Long-Term Care

Cc for information

Rhian Bond, Assistant Director of Primary Care

Cyngor Iechyd Cymuned Hywel Dda